

## **IECHYD A DIOGELWCH MYFYRWYR ANABL**



**Canllaw i Diwtoriaid, Darlithwyr a Staff Cefnogi**

**M**ae pawb ohonom eisiau i fyfyrwyr chwarae rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol ac elwa'n llawn ohono, gan fwynhau'r profiad dysgu a'r profiad o fywyd prifysgol; ni ddylai hyn fod yn wahanol yn achos myfyrwyr anabl.

Trwy gymryd camau penodol, y gobaith yw y gallwn wireddu'r dymuniad hwn, a galluogi pob myfyriwr i gael y gorau o'u hamser yn astudio gyda ni.

Ni fwriedir i'r term 'anabl' fod yn ddirmygus nac yn dramgwyddus, gan ein bod yn deall na fydd rhai myfyrwyr yn ystyried eu hunain yn anabl nac yn ystyried bod ganddynt 'anabledd'. Mae'r brifysgol yn defnyddio'r term hwn yn unig er mwyn:

*'cynnwys y rhwystrau a wynebir gan bobl sydd ag ystod eang o amhariadau corfforol a synhwyraidd, yn cynnwys anawsterau dysgu penodol, cyflyrau iechyd cronig ac anawsterau iechyd meddwl'*

Mae iechyd a diogelwch yn aml yn cael ei ystyried fel esgus i rwystro pobl rhag gwneud rhywbeth.

Yn anffodus, gall hyn hefyd fod yn wir yn achos myfyrwyr anabl, yn arbennig pan fo pobl yn gweithredu'n annoeth er gwaethaf eu bwriadau da. Mae hyn yn aml yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth am yr hyn y gall yr unigolyn ei wneud a sut y mae hynny'n cydblethu a'i anghenion academaidd.

Gall ein diffyg profiad effeithio ar ein penderfyniadau, gan arwain at osod cyfyngiadau rhy lym, pan nad oes eu hangen mewn gwirionedd.

Nod y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth a chynghor dealladwy i helpu myfyrwyr anabl a'r ysgolion/collegau.

**P**am gwneud unrhyw beth? Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod dyletswydd ar bob Sefydliad Addysg Uwch i fynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a llunio Cynllun Cydraddoldeb Anabledd.

*'Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd''*

Yn ogystal â deddfwriaeth gydraddoldeb, llywodraethir materion iechyd a diogelwch pob dydd gan ddeddfwriaeth helaeth, sydd i gyd yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu hanafu neu eu brifo yn sgil eu gwaith.

Er mwyn i Brifysgol Bangor gyflawni ei rhwymedigaethau moesol a chyfreithiol, ac wrth gwrs i wireddu ei dymuniad i gwrdd ag anghenion myfyrwyr anabl, mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a Chod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl. Mae'r brifysgol yn datgan ei bwriad ynddynt i wneud fel a ganlyn:

*'cymryd pob cam ymarferol posibl i alluogi myfyrwyr anabl i gymryd rhan lawn ymhob agwedd ar fywyd y brifysgol.'*



**D**iben y llyfryn hwn yw cynnig cynghor ac arweiniad generig i golegau ac ysgolion ar faterion iechyd a diogelwch a all godi os bydd myfyriwr anabl yn dechrau astudio gyda'r coleg / ysgol a sut i oresgyn rhwystrau posibl.

Mae'r cyhoeddiad wedi'i anelu'n arbennig at diwtoriaid personol a thiwtoriaid cwrs, darlithwyr, technegwyr, tiwtoriaid anabledd a chydlynwyr iechyd a diogelwch. Mae'n cynnwys cynghor ar y canlynol:

- Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch y coleg / ysgol tuag at fyfyrwyr anabl;
- Cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a gwahaniaethu ar sail anabledd

heb ragfarnu'r naill na'r llall; a,

- Ffyrdd o sicrhau astudiaethau dilyffethair i'r myfyriwr.

Mae'r llyfryn yn ategu gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes yn y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cod Ymarfer. Mae copïau o'r ddau ar gael gan y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrrwyr.

**C**odir pryderon cyffredinol am iechyd a diogelwch weithiau pan fo myfyriwr anabl yn dechrau ar gwrs mewn coleg / ysgol, e.e:

- “Beth sydd angen i ni ei wneud mewn argyfwng e.e. tân?”
- “A ellir cyflawni holl elfennau ymarferol y cwrs yn ddiogel?”
- “A ddylid symud yr addysgu i leoliad mwy hygyrch?”
- “A fydd angen hyfforddiant penodol ar staff / myfyrrwyr i gefnogi'r myfyriwr anabl?”
- “A fydd angen cymhorthion / cefnogaeth addysgu benodol, ac os felly gan bwy?”

Mewn gwirionedd, ni fydd y rhan fwyaf o ffyrwyr anabl yn peri mwy o broblemau i chi nag unrhyw ffyrriwr arall. Yr unig wahaniaeth yw efallai y bydd angen ychydig o gymorth ychwanegol arnynt i gynefino â bywyd fel myfyriwr neu i fynd i'r afael â rhannau penodol o'r cwrs.

Yr elfen bwysicaf o asesu anghenion iechyd a diogelwch myfyriwr anabl yw 'siarad' ag ef neu hi a sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn unrhyw asesiad o'u hanghenion y byddwch yn ei gynnal. Ni ddylem fyth 'ragdybio' gan fod pawb yn wahanol ac yn meddu ar wahanol anghenion.

Gellir nodi a darparu cefnogaeth ymarferol trwy gydweithio â'r myfyriwr, aelodau staff y coleg / ysgol, Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaethau Anabledd (yn y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrrwyr).

**D**ewis a derbyn myfyrrwyr anabl: Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gynyddu cyfleoedd i'r rheiny sy'n ymgymryd ag addysg uwch.



Mae hyn yn golygu bod pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod a'i botensial i lwyddo ar y rhaglen a ddewiswyd ganddynt ac i elwa ohoni.

*Mae'r brifysgol yn 'ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr anabl ar yr un sail â phob ymgeisydd'*

Er mwyn helpu i sicrhau bod colegau / ysgolion yn cwrdd â'r rhwymedigaeth strategol hon dylent fod yn ymwybodol o'r 'Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrrwyr Anabl' a'i ddilyn.

**I**echyd a diogelwch myfyrrwyr anabl. Polisi Prifysgol Bangor yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob gweithiwr, myfyriwr, ymwelydd, contractwr ac eraill i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.

Cyflawnir yr ymrwymiad hwn yn bennaf trwy asesiadau risg a dylai pob coleg / ysgol gynnal asesiad risg i nodi'r peryglon sylweddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau a'u cyrsiau.



Bydd yr asesiadau hyn nid yn unig yn nodi'r risgiau sylweddol, ond hefyd y camau rheoli

sydd eu hangen i'w dileu neu eu rheoli. Y nod cyffredinol yw atal unrhyw un rhag cael niwed neu anaf.

Cofiwch: Yr unig wahaniaeth, os yw myfyriwr anabl yn dilyn cwrs, yw y gallai fod angen adolygu'r asesiad risg presennol i nodi a oes angen addasiadau i gefnogi'r myfyriwr hwnnw i'w alluogi i gymryd rhan lawn, neu addasiadau i'r adeiladau a'r ystafelloedd y bydd yn ymweld â hwynt dros gyfnod ei astudiaethau.

Mae'n bwysig nad yw colegau / ysgolion yn cael eu dychryn gan anabledd ac yn gosod cyfyngiadau ar y myfyriwr, a'u hatal rhag cael y gorau o'u cwrs. Weithiau bydd angen cyfyngiadau, ond nid yw hyn bob amser yn wir.

Mae llawer o gamau y gellir eu cymryd i sicrhau bod y myfyriwr yn gallu cymryd rhan lawn yn y cwrs a'r cam cyntaf tuag at gyflawni hyn yw bod colegau / ysgolion yn:

- Creu awyrgylch o fod yn agored. Annog myfyrwyr i dynnu sylw at faterion a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni elfennau o'r cwrs.
- Siarad â myfyrwyr anabl i nodi materion a allai godi yn ystod eu hastudiaethau.

Mae'n bwysig bod y drafodaeth hon yn:

- Agored a hamddenol
- Cael ei chynnal gyda'r myfyriwr a'r tiwtor personol ac o bosibl y tiwtor anabledd neu'r cydlynnydd iechyd a diogelwch
- Tynnu sylw at weithgareddau corfforol a sesiynau ymarferol y bydd y myfyriwr yn cymryd rhan ynddynt
- Gwirio bod gan y myfyriwr fynediad i swyddfa gyffredinol y coleg / ysgol a chyfleusterau'r llyfrgell
- Disgrifio manau y gallai'r myfyriwr ymweld â hwynt yn ystod ei gwrs
- Ymweld â'r manau hyn os bydd angen
- Gofyn yn benodol i'r myfyriwr a oes ganddynt unrhyw bryderon neu a ydynt yn rhagweld unrhyw broblemau
- Pennu a fydd angen unrhyw gyfarpar neu gefnogaeth arbenigol

- Nodi a fyddai angen darpariaethau arbennig mewn argyfwng neu pe bai angen gwagio adeilad ar frys (gweler *Trefnau mewn Argyfwng isod*)

**A sesiadau risg:** Ar ôl cael y sgwrs hon gyda'r myfyriwr, dylai colegau / ysgolion weithio gyda'u cydlynnydd iechyd a diogelwch / tiwtor anabledd i wneud y canlynol:

- Paratoi asesiad risg ar gyfer y myfyriwr sy'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd
- Os oes angen, ceisio cyngor arbenigol gan y Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr neu Iechyd a Diogelwch.
- Cytuno ar yr asesiad risg gyda'r myfyriwr
- Sicrhau bod y myfyriwr yn gwybod ac yn deall y camau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith i warchod eu hiechyd a'u diogelwch
- Dosbarthu'r asesiad risg i staff perthnasol y coleg / ysgol

Dylai'r enghreifftiau a amlinellir yn y llyfryn hwn roi syniad i chi o ba gymorth y gellir ei roi i fyfyrwyr anabl.

### Enghraifft 1:

**Gweithgareddau Labordy:** Mae myfyriwr ag anabledd corfforol sy'n defnyddio cadair olwyn weithiau yn profi poen difrifol wrth eistedd ar fainc am gyfnodau estynedig i astudio samplau. Weithiau oherwydd y boen ni all y myfyriwr gwblhau ei gwaith o fewn yr un amser â myfyrwyr eraill.

**Gweithredu:** Cynorthwyodd y cynghorwr anabledd a chydlynnydd diogelwch yr ysgol i asesu'r holl waith labordy. Arweiniodd hyn at brynu cadair addas a defnyddio microsgop mwy ergonomig fel nad oedd rhaid i'r myfyriwr roi pwysau gormodol ar waelod ei chefn. Yn ogystal, daethpwyd o hyd i fan cyfleus i osod ei baglau yn ddiogel fel nad oedd perygl i unrhyw un faglu drostynt.

Llwyddodd y myfyriwr i gwblhau elfennau ymarferol y cwrs heb unrhyw anawsterau mawr.





### Enghraifft 2:

**Gwaith Maes:** Roedd myfyriwr yn pryderu na allai deithio o'r bws mini ar draws tir garw i leoliad maes i gymryd samplau. Roedd y lleoliad mewn ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig a than reolaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Gweithredu:** Aseswyd y sefyllfa gan y tiwtor a threfnwyd trwy Warden y Cyngor Cefn Gwlad i agor giât mynediad i ffordd breifat gyfagos. Golygai hynny fod y myfyriwr yn gallu cael mynediad diogel yn agos at y safle samplu. Yn dilyn hynny ni chafodd y myfyriwr unrhyw broblemau'n astudio'r planhigion ac yn cymryd samplau.

Hefyd, roedd sicrhau mynediad i gerbyd yn nes at y safle samplu yn caniatáu i'r tiwtor gludo offer gwyddonol trymach i'r lleoliad; ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl yn flaenorol gan fod yr offer yn rhy drwm i'w gario'n ddiogel.



### Enghraifft 3:

Roedd myfyriwr â nam ar ei glyw eisiau astudio cwrs Dyniaethau.

Yn dilyn sgwrs gyda'r myfyriwr a staff yr ysgol, lluniodd y cynghorwr anabledd Gynllun Cefnogi Dysgu Personol a sicrhau bod dolenni clyw yn cael eu gosod yn y darlithfeydd a'r ystafelloedd seminar. Rhoddwyd 'peiriant galw' i'r myfyriwr hefyd.

Sicrhaodd y 'peiriant galw' fod y myfyriwr yn cael ei hysbysu pan oedd y larwm tân yn canu er mwyn gallu gadael yr adeilad gyda phawb arall. Gweithiai'r 'peiriant galw' hefyd yn eu neuadd breswyl ac yn Undeb y Myfyriwr.

Cynorthwyodd Gwasanaethau Myfyriwr y tiwtor personol hefyd drwy roi cyngor ar gyfathrebu clir a thrwy ganiatáu i'r myfyriwr ddarllen gwefusau pan oedd angen.

Hefyd, profodd defnydd helaeth yr ysgol o *Blackboard* yn amhrisiadwy i'r myfyriwr.



Mae dolenni clyw neu anwythiad i'w cael mewn gwahanol leoliadau ar draws y brifysgol. Mae'r rhain yn helpu pobl sy'n drwm eu clyw ac sy'n defnyddio cymorth clyw (neu wrandawr dolen) i glywed synau yn gliriach trwy leihau neu ddileu sŵn cefndir. Mae gan sawl adeilad systemau larwm tân 'dolen' sydd wedi'u cysylltu i beiriannau galw.



**M**ae Gwasanaethau Anabledd, sy'n rhan o Wasanaethau Myfyriwr, yn cynnig gwasanaeth cefnogi rhagorol i golegau / ysgolion a myfyriwr anabl.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gweithio gyda'r myfyriwr a'r coleg / ysgol i drafod gofynion y myfyriwr a'r trefniadau y gellir eu rhoi ar waith ar eu cyfer (Cynllun Cefnogi Dysgu Personol). Maent hefyd yn cynnig y gefnogaeth ganlynol:

- *Cymorth Ariannol:* Bydd y cynghorwr anabledd yn gallu rhoi cyngor ar Lwfansau i Fyfyriwr Anabl (DSA)
- *Y Ganolfan Access:* Canolfan Asesu achrededig sy'n cynnal asesiad o anghenion ar gyfer y Lwfans i Fyfyriwr Anabl ac yn nodi strategaethau i gael

gwared ar rwystrau i helpu myfyrwyr astudio hyd eithaf eu potensial

- *Cynghorwyr Iechyd Meddwl:* Maent yn cynnig cefnogaeth bersonol i fyfyrwyr. Gellir hefyd trefnu i fyfyrwyr weld cynghorydd mewn lleoliad mwy hygyrch
- *Undeb y Myfyrwyr:* Mae'n cynnig gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth i fyfyrwyr
- *Tîm Dyslecsia:* Mae'n cynnig cymorth i fyfyrwyr dyslecsig
- *Canolfannau Cefnogaeth Astudio:* Mae'r Canolfannau (Prif Lyfrgell y Celfyddydau ac Adeilad Deiniol) yn cynnig ystod o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi myfyrwyr â gwahanol amhariadau. Mae'r ddau safle yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn

Caiff llawer o'r gefnogaeth uniongyrchol ei chynnig gan diwtor anabledd y coleg / ysgol neu diwtor personol y myfyriwr; gan mai dyna'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i wneud.

Mae tiwtoriaid anabledd fel arfer yn aelodau o staff academiaidd y coleg/ysgol sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer myfyrwyr a chydweithwyr anabl yn eu coleg/ysgol.

Bydd Gwasanaethau Anabledd yn gallu eich hysbysu am diwtor anabledd eich ysgol [www.bangor.ac.uk/student-services/disability](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability)

**Trefnau mewn argyfwng:** Wrth baratoi Cynllun Cefnogi Dysgu Personol y myfyriwr, bydd y Gwasanaethau Anabledd yn nodi a oes angen cymorth ar y myfyriwr i adael adeilad mewn argyfwng..

Os oes angen cymorth arno/arni, bydd y Gwasanaethau Anabledd yn nodi hynny yn y Cynllun Cefnogi Dysgu Personol, ac yn hysbysu lechyd a Diogelwch fel rhan o'r broses.



Yna bydd Iechyd a Diogelwch yn cysylltu â'r coleg / ysgol (cyn i'r myfyriwr ddechrau ar eu cwrs) i drafod goblygiadau'r cwrs e.e. gweithgareddau corfforol a sesiynau ymarferol a lle bydd y myfyriwr yn astudio.

Unwaith bydd y myfyriwr yn dechrau ar ei gwrs, bydd Iechyd a Diogelwch yn trefnu cyfarfod, gyda'r myfyriwr a'r coleg / ysgol os oes angen, i drafod trefniadau penodol mewn sefyllfa argyfwng. O'r wybodaeth hon paratwir Cynllun Personol Dianc mewn Argyfwng (PEEP) (gweler *Taflen Wybodaeth - Trefnau Gwacáu i Bobl Anabl (yn Safon Polisi Diogelwch Tân y Brifysgol)*).

Caiff y cynllun gorffenedig ei drafod gyda'r myfyriwr a'r coleg / ysgol. Gall myfyrwyr gysylltu ag Iechyd a Diogelwch os ydynt yn teimlo bod angen diweddarau'r cynllun neu os oes ganddynt bryderon amdano.

#### Enghraifft 4:

Roedd myfyriwr â pharlys yr ymennydd yn dilyn rhaglen radd wyddoniaeth ac roedd ar fin dechrau ar ei broiect blwyddyn olaf. Trafodwyd thema a chwmpas y project gyda'r myfyriwr, y tiwtor a 'gweithiwr cefnogi'r' myfyriwr a chynlluniwyd project addas.

Caniatâi'r project a ddewiswyd ar gyfer y myfyriwr iddo/iddi gymryd rhan lawn mewn ymchwil i dwf anifeiliaid a thrwy hynny ennill gradd anrhydedd BSc. Aeth y myfyriwr ymlaen i gwblhau MSc yn llwyddiannus ym Mangor, gan ymgymryd â phroject ymchwil arall, a gyhoeddwyd mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gydweithwyr.

**Cymorth pellach:** Cofiwch nad ydych ar eich pen eich hun. Gwasanaethau Anabledd yw ffynhonnell pob gwybodaeth am anableddau myfyryr.



Bydd cydlynedd Iechyd a Diogelwch eich coleg / ysgol, y cyswllt anabledd ac Iechyd a Diogelwch

hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi ar unrhyw faterion yr ydych yn ansicr amdanynt wrth asesu anghenion myfyriwr anabl.

### Enghraifft 5:

Alergeddau: dros y blynyddoedd mae nifer o fyfyrwyr wedi dioddef o fathau o alergeddau a allai fod yn ddifrifol, gan gynnwys latecs ac alcohol.

Mewn nifer o wyddorau cemegol ac amgylcheddol mae'n gyffredin defnyddio menig latecs ac alcohol fel cadwolyn. Pan fo gan fyfyrwyr alergeddau o'r fath gall fod yn sefyllfa anodd ei rheoli, ond mae'r risgiau wedi cael eu rheoli mewn achosion o'r fath ac mae myfyrwyr wedi mynd ymlaen i gwblhau eu hastudiaethau.

Llwyddwyd i sicrhau amgylchedd dysgu diogel drwy asesu'r defnydd o gemegau, amnewid sylwedd arall am alcohol lle oedd hynny'n bosibl a rhoi arferion hylendid labordy da ar waith.



### Enghraifft 6:

Roedd angen Cynllun Personol Dianc mewn Argyfwng (PEEP) ar fyfyrwr oedd yn defnyddio cadair olwyn yn rheolaidd - '*cynllun ar sut i adael yr adeilad yn ddiogel*'.

Cafodd y tiwtor a chydlynedd diogelwch yr ysgol gyfarfod â'r myfyriwr a sgwrsio am ba adeiladau y byddai'n ymweld â hwynt yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol, ac yn dilyn hynny ymgynghorwyd ag lechyd a Diogelwch ynghylch pa systemau cefnogaeth mewn argyfwng oedd ar waith yn yr adeiladau hynny.

Lluniwyd PEEP gan yr Ysgol ar gyfer yr adeiladau academaidd a chefnogi dysgu a chafodd y myfyriwr ei friffio'n llawn ar y protocolau mewn argyfwng. Yn yr achos hwn, defnyddio 'pwyntiau lloches diogel' oedd y prif gynllun diogelwch a ddefnyddiwyd, ynghyd â sicrhau bod pawb yn deall yr hyn oedd yn ofynnol a phryd.

Cyn bo hir caiff 'liffitiau gwagio' eu gosod yn yr adeiladau oedd dan sylw'r cynllun; bydd y rhain yn caniatáu i staff a myfyrwyr sy'n ddibynnol ar gadeiriau olwyn adael yr adeiladau gyda chymorth heb beryglu unrhyw un.



### Useful contacts:

Tîm Dyslecsia - [www.bangor.ac.uk/studentsservices/disability/dyslexia.php.en](http://www.bangor.ac.uk/studentsservices/disability/dyslexia.php.en)

Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd - [www.bangor.ac.uk/careers/index.php.en](http://www.bangor.ac.uk/careers/index.php.en)

Canolfan ACCESS - [www.bangor.ac.uk/access-centre/index.php.en](http://www.bangor.ac.uk/access-centre/index.php.en)

Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA) - [www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas](http://www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas)

lechyd a Lles Gwasanaethau Myfyrwyr - [www.bangor.ac.uk/studentsservices/wellbeing/index.php.en](http://www.bangor.ac.uk/studentsservices/wellbeing/index.php.en)